**PWYLLGOR ARCHWILIO 30-09-08**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, Margaret Griffith, Dafydd Ll. Hughes, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts a Gethin Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones, (Uwch Reolwr Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol Tros Dro), Kevin Thomas (Partner Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Brian Jones, Charles W. Jones

<u>Croeso</u>
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn cymryd lle'r Cynghorydd Christopher Hughes ar y pwyllgor hwn a chroesawodd ef i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir -

- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn eitem 5(b) ar y rhaglen, gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2008, Atodiad 9 – Ysgol Ardudwy gan ei fod yn lywodraethwr yr ysgol.
- Y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn eitem 5(b) ar y rhaglen, gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2008, Atodiad 21 – Cartref Henoed Bryn Blodau, Llan Ffestiniog gan bod ei wraig yn gweithio yn y cartref.

Mewn perthynas â'r datganiad cyntaf 'roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r ail ddatganiad, cynghorwyd yr aelod i ymadael o'r cyfarfod os byddai trafodaeth ar y mater.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2008, fel rhai cywir.

3. **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

**a) Adroddiad i'w ystyried ar gais y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Iechyd Meddwl – Llety Cefnogol**

Adroddwyd gan y Pennaeth Cyllid y gwahoddwyd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau oedd yn codi o'r adroddiad archwiliad **" Iechyd Meddwl – Llety Cefnogol".** Oherwydd ymrwymiadau eraill, nid oedd yn bosibl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bresennol ac yn wyneb hynny awgrymodd y Pennaeth Cyllid unai ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf neu ei drafod gyda gweddill yr adroddiadau yn eitem (b) isod.

Datganodd aelod anfodlonrwydd nad oedd swyddog arall o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod yn lle'r Pennaeth Gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyriaeth tan y cyfarfod nesaf.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Awst 2008**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2008. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 22 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 6 archwiliad dilyniant.

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan yr Adain Archwilio. 'Roedd hyn yn cynnwys 13 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 26 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol gyda categori Barn C arnynt ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Prosesu Costau Teithio – Cyfadran yr Amgylchedd**

Gofynnodd aelod a oedd gwahaniaeth yn y dull o brosesu costau teithio y gwahanol gyfadrannau a pham y rhoddwyd sylw'n benodol i Gyfadran yr Amgylchedd.

Mewn ymateb, rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r camau i'w dilyn pan brosesir costau teithio.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai trefniadau Cyfadran yr Amgylchedd oedd dan sylw y tro hwn ond y byddai trefniadau rhannau eraill o'r Cyngor yn ymddangos yn y cynllun archwilio, ar sail asesiad risg. Adroddodd y byddai pwyntiau pwysig o safbwynt rheolaeth oedd yn deillio o'r archwiliad hwn yn cael eu rhannu i holl reolwyr y Cyngor mewn

canllawiau newydd ar brosesu costau teithio fyddai'n cael eu dosbarthu o fewn y dyddiau nesaf.

**Grant Ysgolion Bro Llywodraeth y Cynulliad 2007/08 – Cyfadran Datblygu**

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at gwmpas yr archwiliad sef y defnyddir yr arian grant i'r pwrpas a nodir yng nghylchlythyr y Cynulliad. Barn yr archwiliad yw bod diffygion yn y rheolaethau mewnol a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn parhau mewn perthynas â gweinyddiaeth arian grant ysgolion bro. Trafodwyd y mater gyda'r Gwasanaeth Ysgolion er ceisio tynhau'r trefniadau ar gyfer gweinyddu grant 2008/09.

**Gwasanaeth Estynedig "Rho Alwad", Cyswllt a Gweithgareddau Hamdden – Cyfadran Gofal**

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at gwmpas yr archwliad sef archwilio trefniadau sefydlu'r gwasanaeth, ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd, y drefn o hawlio oriau goramser a'r drefn o adolygu costau cyflogau. Barn yr archwiliad oedd na ellid dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Adroddwyd bod y gwasanaeth penodol hwn bellach wedi dod i ben ond bod yr archwiliad wedi ei gwblhau ar gais rheolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adnabod meysydd i wella pan sefydlir gwasanaethau amgen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin i 31 Awst 2008 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2007/08

**i) Adroddiad ffurfiol "ISA 260"**

Yn unol â threfn archwilio blynyddol "ISA 260", sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). 'Roedd cynrychiolydd Archwilydd Penodedig SAC ar gyfer Cyngor Gwynedd yn bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2008 yn ogystal â'r incwm a'r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau yn cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn deg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd y bwriedir cyhoeddi barn archwilio diamod ar y cyfrifon.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriwyd at rai pryderon a chyfeiriodd y Rheolwr Lleol at y rhain yn unigol gan nodi gwelliannau posibl. Mewn perthynas â'r cymal "camddatganiad heb ei gywiro", tynnodd sylw at rai camddatganiadau na chywirwyd heblaw mân gamddatganiadau amlwg a ddiffinnir fel rhai sy'n ddibwys. Ar sail y methodoleg safonol, y terfyn ariannol ar gyfer yr hyn a ystyrir yn fân wall yw £100,000. 'Roedd yr adroddiad ISA 260 yn cyfeirio at gamddatganiad o'r fath, sef dyled Awdurdod Tân Gogledd

Cymru. Fodd bynnag, adroddwyd gan y Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod gwybodaeth pellach wedi dod i law oedd yn amlygu bod maint y ddyled yn sylweddol llai na'r ffigur 'roedd yr adroddiad ISA 260 wedi awgrymu. Ymhellach, nid oedd y ddyled tros y trothwy "dibwys" ac felly nid oedd "camddatganiad heb ei gywiro" oedd angen ei adrodd. O ganlyniad, cynigiodd Partner Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru newid yr adroddiad i adlewyrchu hyn gan gyhoeddi adroddiad diwygiedig a threfnir i anfon copi ohono at yr aelodau.

Cyfeiriodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru hefyd at y ffaith nad oes modd cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol a rhoddi tystysgrif archwilio hyd nes y byddai ymholiadau'n codi o fater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi eu cwblhau'n ffurfiol.

Wrth ddiolch i'r Archwilwyr Penodedig, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn gyffredinol fodlon ar gynnwys yr adroddiad gan bwysleisio bod y neges bwysicaf ym mharagraff 6 ar dudalen 5 lle 'roedd yr Archwilydd Penodedig yn cyflwyno adroddiad diamod ar y cyfrifon.

Mewn perthynas â safle Cilgwyn, tynnwyd sylw gan yr Uwch Reolwr Cyllid at y ffaith i'r Cyngor neilltuo £1.6m o fewn y rhaglen gyfalaf gyfredol ar gyfer 2008/09 ac wedi hynny er mwyn talu am y gost o gau'r safle a'r gwaith capio cychwynnol ar ôl iddo gau yn Rhagfyr 2008.

**PENDERFYNWYD gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru addasu'r adroddiad ISA 260 a chyhoeddi'r fersiwn heb gyfeiriad at y camddatganiad honedig**

**ii) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor.

Yn dilyn yr arweiniad a gafwyd gan yr Archwilwyr Penodedig ar y cyfrifon, 'roedd yr aelodau'n fodlon gyda'r datganiad o'r cyfrifon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r staff perthnasol yn y Gwasanaeth Cyllid ar eu gwaith caled yn cynhyrchu'r cyfrifon**

**iii) Llythyr Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar y Cyfrifon Terfynol, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid llythyr drafft at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu yng Nghyngor Gwynedd. 'Roedd y "llythyr cynrychiolaeth" hwn yn cynnwys gosodiadau ynglyn â datganiadau ariannol 2007/08 gan ymdrin ag amrywiol faterion gan gynnwys asedau, rhwymedigaethau a rheolaeth fewnol. Eglurodd y Pennaeth Cyllid ei fod wedi drafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu," sef y Pwyllgor Archwilio.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid bod y llythyr yn nodi bod y Cyngor, wrth gau'r cyfrifon, wedi cydymffurfio ag amrywiol amodau, nad oes camddatganiadau o sylwedd materol yn y datganiadau ariannol statudol ac nad oes unrhyw faterion o'r fath wedi eu hepgor.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r llythyr a'i gyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2007/08**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2008/09.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Awst 2008 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 55 |
| Crewyd papurau gwaith | 9 |
| Gwaith maes ar y gweill | 25 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad drafft wedi ei ryddhau | 8 |
| Adroddiad terfynol wedi ei ryddhau | 13 |
| Cyfanswm | **112** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2008/09 yw 95% ac fe ymddengys ar hyn o bryd bod y targed hwn yn gyrraeddadwy.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2008/09.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am